

COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANGYNDEYRN A GYNHALIWDYD AR 7fed o HYDREF 2019 YN FESTRI MOREIA MEINCIAU 7.00 O'R GLOCH

Presennol: Margaret Rees (yn y gadair), Ian Evans, Carol Williams, Tyssul Evans, Linda Williams, Heddwyn Jones, Aled Williams, Geoff Hewitt, Alan Lewis a'r Clerc, Glyndwr Prideaux

Ymddiheuriadau: Tracey James, Geraint Rosser a Meic Bowen.

2273 Croesawyd pawb i'r Cyfarfod gan y Cadeirydd. Nodwyd gyda thristwch am farwolaeth Mam y Cyngorwr Geraint Rosser ac estynnwyd cydymdeimlad y Cyngor iddo fe a'u deulu.

2274 Cofnodion

Derbyniwyd a llofnodwyd cofnodion y Cyfarfod misol diwethaf ar 02/09/2019 fel rhai cywir.

2275 Materion yn codi.

Tud 1. Cofnod Rhif 2260 - Clwb Cymdeithasol Carwe. - Penderfynwyd gofyn am ddiweddariad oddiwrth Adran Cynllunio'r Cyngor Sir gan fod hwn nawr yn fater o frys.

Tud 1. Cofnod Rhif 2260- Swyddfa Bost Carwe - Arhoswn am ymateb oddiwrth Cyngor Gwledig Llanelli ynglŷn â Chyfarfod Safle.

Tud 1. Cofnod Rhif 2260 - Llwybr i Gwm Lewis – Mae angen clirio'r coed sydd wedi torri oddiar y palmant.

Tud 2. Cofnod Rhif 2271 – Safle Ffoslas – Derbyniwyd ymateb ffafriol oddiwrth Cwmni Persimmon.

Gohebiaeth

Ceisiadau am grant/cyfraniadau ariannol:-

Cyngorwr Linda Williams Is-gadeirydd yn y gadair

Cyngorwr Margaret Rees yn datgan diddordeb, arwyddo'r ffurflen a gadael y cyfarfod.

2276 Ebeneser Crwbin - Penderfynwyd danfon cyfraniad o £600.

Margaret yn ail ymuno a'r cyfarfod.

Cyngorwr Margaret Rees yn y gadair

2277 Bethel Llangyndeyrn – Penderfynwyd danfon cyfraniad o £600.

2278 Eisteddfod Bancffosfelen - Penderfynwyd danfon cyfraniad o £100.

2279 Llanelli Centre for the Deaf – Penderfynwyd danfon cyfraniad o £50.

2280 Pwyllgor Lles Llangyndeyrn – Parc Llangyndeyrn – Llythyr yn diolch am y rhodd.

2281 Meinciau Short Mat Bowls – Llythyr yn diolch am y rhodd.

2282 Capel Moreia Meinciau – Llythyr yn diolch am y rhodd.

Gohebiaeth gyffredinol :-

2283 Cyngor Sir Gar - Dargyfeirio Llwybr yn Ffoslas - Nodwyd y Llythyr.

2284 Cyngor Sir Gar – Newidiadau sy'n effeithio ar y gwasanaeth ail-gylchu – Nodwyd y Llythyr.

2285 Cyngor Sir Gar - Cau Llwybr dros dro yng Nghrwbini - Nodwyd y Llythyr.

2286 Tipio ym Meinciau – Penderfynwyd danfon y llythyr at y Cyngor Sir

2287 Cyflymder traffig drwy'r Meinciau – Penderfynwyd danfon y llythyr at yr Heddlu a'r Cyngor Sir.

2288 Coed Ffoslas - Penderfynwyd cefnogi cais yr Ymddiriedolaeth Coedwigo ynghylch gwaredu Baw Cwn.

Ceisiadau Cynllunio

2289 a) Cais Rhif W/39414 - Ms Caroline Davies - Mwynfan, Heol Brynhaul, Pontiets - Gwrthwynebiad ar sail ychwanegiad traffig ar gyffordd Heol Nasareth.

Adroddiad o Daliadau a Threuliau'r Mis

2290 Derbyniwyd adroddiad ariannol Mis Medi 2019. Derbyniwyd argymhelliad y Clerc ein bod yn trosglwyddo gweddillion rhan o'r gyllideb sydd heb eu gwario i'r lein gyffredinol.

Adroddiad Ariannol Misol

2291 Penderfynwyd bod y canlynol i'w dalu :-

a) Cyflog y Clerc - £422.81 (Mis Medi)

b) Ffon Tŷ'r Clerc - £25.00 (Mis Medi)

c) Cydnabyddiaeth y Syrfêwr - £110.00 (Mis Medi)

ch) HMRC (Treth)- £84.60 (Mis Medi)

d) Ffon Symudol y Cyngor - £9.98 (Mis Medi)

dd) BT – Ffon y Swyddfa - £50.64 (Mis Medi)

e) Paula Clarke – Glanhau Toiledau'r Meinciau (Mis Medi)- £184.34

f) Marcus Dininno - Torri Gwair yng Ngharwe - £50.00

ff) Marcus Dininno – Torri Coed Nadolig Carwe - £65.00

g) Inc i'r Llungopiwr - £59.37

ng) Marcus Dininno – Torri Gwair yng Ngharwe - £50.00

h) Stampiau - £31.44

i) Paentio Cysgodfa Bys Maesywern, Carwe - £500.00

l) Treuliau Teithio'r Syrfêwr- £40.00

m) Treuliau Ffon y Syrfêwr - £40.00

n) D.Jermin – Torri Perth rhwng Heol Mansant a Heol Bancyroffis - £50.00

Cynghorydd Geoff Hewitt (Cyn-gadeirydd) yn y gadair

Cynghorwyr Margaret Rees, Linda Williams, Ian Evans, Tyssul Evans ac Aled Williams yn datgan diddordeb, arwyddo'r ffurflen a gadael y cyfarfod.

2292 Eisteddfod yr Urdd - Sir Gaerfyrddin 2021 - Derbyniwyd adroddiad gan y Clerc ynglŷn â nawdd ariannol i'r Eisteddfod pan gynhelir hi yn Llanymddyfri yn 2021. Argymhellwyd i'r Cyngor nesaf y dylid cyfrannu cyfanswm o £3000 dros y 3 blynedd nesaf.

Margaret, Linda, Ian, Tyssul ac Aled yn ail ymuno a'r cyfarfod.

Cynghorydd Margaret Rees yn y gadair

Archwiliad Cyfrifon y Cyngor 2018 - 2019

2293 Cafwyd adroddiad gan y Clerc ynglŷn â'r uchod. Darllenwyd y llythyr oddiwrth Cwmni Grant Thornton yn amgáu'r Dystysgrif Archwilio ac Adroddiad Amodol i'r Cyngor. Nodwyd cynnwys y llythyr a diolchwyd i'r Clerc am ei waith ynglŷn â'r mater hwn.

Cyfarfod nesaf:- 4ydd o Dachwedd 2019 yn Neuadd Carwe am 7.00 o'r gloch.

(Cyfarfod Cynllunio am 6.45 o'r gloch)

Llofnodwyd..... CADEIRYDD

Dyddiad.....